COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 7 CHWEFROR 2022, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | JPD Blundell | G Chappell | C L C Davies |
| P Davies | S Dendy | DK Edwards | T Giffard |
| RM Granville | JE Pratt | KL Rowlands | DA Unwin |
| KJ Watts | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Lyddon, C Reeves, CE Smith, JH Tildesley MBE a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |

221. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd Y Cyng. JP Blundell fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Laleston y trosglwyddwyd ased cymunedol (CAT) iddo, sef Canolfan Gymuned Bryntirion, ac roedd yn y broses o gyflwyno mynegiannau o ddiddordeb mewn prosiectau cymunedol eraill.

Datganodd Y Cyng. P Davies fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn Ddirprwy Gadeirydd Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau a bod prydles ar y Ganolfan Gymuned ar hyn o bryd, ac roedd trafodaethau'n parhau o ran trosglwyddiad CAT. Roedd hefyd yn aelod o Glwb Rygbi Nantyffyllon a oedd yn ymwneud â throsglwyddiad CAT Parc Lles Caerau.

Datganodd Y Cyng. R Granville fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn ymwneud â thrafodaethau ynghylch trosglwyddo'r cae pêl-droed i Gyngor Cymuned Corneli.

Datganodd Y Cyng. Chappell fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn gysylltiedig â Chlwb Rygbi Cynffig a'u bod wedi gwneud cais am drosglwyddo ased yn ddiweddar.

Datganodd Y Cyng. Huw David fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn aelod o Glwb Rygbi Mynydd Cynffig, Clwb Athletau Cefn Cribwr, a Chlwb Bowls Cefn Cribwr, ac roedd bob un o'r clybiau hyn wedi ymwneud â'r broses CAT.

Datganodd Y Cyng. R Young fuddiant personol yn eitem 6, Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymunedol Coety Uchaf, ac roedd cais wedi'i gyflwyno ar gyfer trosglwyddiad CAT ar Great Western Avenue a chaeau chwarae eraill.

222. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion 29 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir.

223. HYSBYSU CYMDOGION AC YMGYNGHORI Â CHYNGHORAU TREF/CYMUNED YN Y BROSES GYNLLUNIO

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned am y broses statudol ar gyfer hysbysu cymdogion ag ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned o fewn y broses geisiadau cynllunio.

Eglurodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, lle'r oedd cais dilys am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno, roedd rhwymedigaeth statudol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ymgymryd â chyhoeddusrwydd ac ymgynghori. Roedd gan ADLlau ryddid i benderfynu sut i hysbysu cymunedau a phartïon eraill sydd â diddordeb am geisiadau cynllunio, er bod gofynion statudol sylfaenol. Eglurodd, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, eu bod yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol sylfaenol ar gyfer hysbysu cymdogion. O ran ceisiadau syml am estyniad i dŷ, tra bo'r Gorchymyn yn nodi y dylent roi'r hysbysiad gofynnol trwy arddangos yr hysbysiad mewn o leiaf un lle, ar y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu wrth ei ymyl, am gyfnod o ddim llai na 21 diwrnod; neu trwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyfagos. Roeddynt yn dueddol o wneud y ddau, a hefyd yn dueddol o ymestyn yr hysbysiad i amrywiaeth ehangach o eiddo cyfagos. Roeddynt hefyd yn mynd y tu hwnt i'r terfyn amser 14 diwrnod ar gyfer derbyn sylwadau gan Gynghorau Tref a Chymuned, trwy ganiatáu 21 diwrnod. Os nad oedd modd i'r Cyngor Tref neu Gymuned gwrdd â'r terfyn amser hwnnw, byddant yn mynd ati'n rheolaidd i gytuno ar estyniadau o'r cyfnod amser hwnnw.

Roedd Rheolwr Grŵp yr Adran Cynllunio a Datblygu yn adrodd bod Cynghorau Cymunedol unigol a'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned wedi cynnig y dylai'r ACLl anfon copïau o wrthwynebiadau cymdogion iddynt er mwyn i'r Cynghorau gael gwybod beth yw cryfder y teimladau ar lefel leol. Eglurodd, yn anffodus, nad oedd modd iddynt anfon unrhyw sylwadau gan gymdogion ymlaen i'r Cynghorau Tref (CT) a Chymuned (CC) gan y byddai hynny'n torri'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Hyd yn oed os oedd cymydog wedi cydsynio i anfon ei sylwadau ymlaen i'r CT/CC, nid oedd ganddynt yr amser na'r adnoddau i olygu unrhyw sylwadau a gyflwynwyd am wybodaeth bersonol cyn gwneud hynny. Yn ogystal, roedd y prosesau ymgynghori a hysbysu yn cydredeg, ac felly nid oedd modd iddynt ohirio'r broses oherwydd targedau statudol ar gyfer penderfynu ceisiadau. Os oeddynt yn dymuno hynny, awgrymodd y gallai Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu â'u preswylwyr a rhoi gwybod iddynt y gallent anfon copi o'u sylwadau ar unrhyw gais cynllunio at y Cyngor Cymuned ar yr un pryd ag yr oeddent yn ymateb i'r ACLl.

Cyfeiriodd aelod at y modd yr oedd yr ACLl yn ymestyn ei hysbysiadau i amrywiaeth ehangach o eiddo cyfagos, a gofynnodd p'un a oedd unrhyw bellter penodol wedi'i benderfynu. Ymatebodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu nad oedd unrhyw bellter penodol a bod hyn yn ddewisol. Nid oedd ond rhaid iddynt ymgynghori â thirfeddianwyr neu gymdogion cyfagos, ond roeddynt yn ceisio ymgynghori'n ehangach, yn dibynnu ar y math o gais a oedd dan sylw. Byddant hefyd yn defnyddio hysbysebion safle mewn lleoliad yn agos i'r datblygiad. Byddai'n well ganddynt gael pethau'n iawn y tro cyntaf, a chaniatáu i bawb gael y cyfle i wneud sylwadau, yn hytrach na gorfod ailgychwyn y broses rywbryd eto yn y dyfodol.

Eglurodd aelod ei fod yn deall pam fod Cynghorau Tref a Chymuned eisiau gwybod beth oedd preswylwyr yn ei ddweud, ynghyd â'r materion o ran GDPR. Gofynnodd p'un a fyddai'n ymarferol i'r ACLl roi gwybod i'r ymgynghorai bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwneud â'r broses ac y gallent hysbysu'r ACLl am eu pryderon, yn ogystal â'u Cynghorau Tref a Chymuned fel ymgynghorai statudol. Atebodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu bod rhaid iddynt fod yn ofalus wrth ddarparu gwybodaeth i breswylwyr, a bod geiriad yr ymgynghoriad wedi'i nodi mewn statud. Nid oedd Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan o'r broses benderfynu, ac nid oedd yn swyddogaeth i'r ACLl roi gwybod i breswylwyr y dylent gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned i wrando ar eu cwynion neu i fynegi eu barnau. Byddai unrhyw sylwadau a wneir gan gyrff allanol yn cael eu hystyried, a byddai'r swyddog perthnasol yn mynd i'r afael â hwy wrth ysgrifennu ei adroddiad.

Cyfeiriodd aelod at y cyfnod ymgynghori 3 wythnos, a gofynnodd p'un a ellid ei ymestyn yng ngolau'r ffaith bod y mwyafrif o Gynghorau Tref a Chymuned yn cyfarfod bob 4 i 5 wythnos. Atebodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu bod 21 diwrnod yn gyfnod rhesymol, gan ystyried nad oedd gan yr ACLl ond 8 wythnos i benderfynu'r cais. Pe baent yn methu â gwneud hynny o fewn y cyfnod hwnnw, byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd oddi arnynt. Roedd yn deall y problemau ac yn egluro, os oedd gwir reswm i ymestyn hyn, yna y byddid yn ei ystyried. Roedd yn amlwg fod cynlluniau mwy yn cymryd mwy nag 8 wythnos i'w penderfynu, ond roedd rhaid cytuno hyn â'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD Derbyniwyd ac ystyriwyd yr adroddiad gan y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

224. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-23 TAN 2025-26

Er gwybodaeth, cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151) gopi i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned o'r adroddiad a aeth i'r Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2022-23 tan 2025-26, ar 18 Ionawr 2022.

Eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151), oherwydd yr oedi o ran canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer 2021, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft tan 20 Rhagfyr 2021, na'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro tan 21 Rhagfyr 2021. Roedd hyn yn unol â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'n dal i fod yn tua 2 fis yn hwyrach nag arfer. O ganlyniad i'r oedi o ran cyhoeddiadau, ni chafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei chyflwyno i'r Cabinet tan 18 Ionawr 2022, cyn ei chyflwyno ar gyfer ei chraffu gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor. Caiff y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig derfynol ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ar 22 a 23 Chwefror 2022, yn y drefn honno, i'w chymeradwyo. Byddai'r dreth gyngor arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor hefyd, i'w chymeradwyo ar 23 Chwefror 2022.

Eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151), wrth geisio parhau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor, ynghyd â diogelu ei fuddsoddiad mewn Addysg ac ymyrraeth gynnar, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ynghyd â blaenoriaethu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, eu bod yn cynnig nifer o newidiadau yng nghyllideb 2022-23. Cyfeiriodd at gyfleoedd i godi incwm ychwanegol, ynghyd â modelau cyflenwi eraill i sicrhau mwy o gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd, effeithlonrwydd ac arbedion o ran eiddo, ynghyd â newidiadau o safbwynt darpariaeth gwasanaeth.

Eglurodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151) bod MTFS y Cyngor wedi'i gosod o fewn cyd-destun cynlluniau gwariant economaidd a

chyhoeddus y DU, blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Roedd y MTFS yn mynegi'r modd yr oedd y Cyngor yn cynllunio i ddefnyddio ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau ariannol a risgiau dros y pedair blynedd nesaf. Amlinellodd Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru 2022-23, oblygiadau'r setliad ar gyfer 2023 i 2026, trosglwyddiadau i mewn ac allan o Setliad Refeniw 2022-23, ynghyd â grantiau penodol.

Eglurodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151) bod sawl math o bwysau sylweddol o ran costau yr oedd angen iddynt eu hariannu o fewn y cynnydd. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i gwrdd â'r cytundeb tâl ar gyfer gweddill y flwyddyn gyfredol ac ar gyfer y flwyddyn nesaf, i gyflawni'r gofynion newydd o ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac i ariannu cyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r llynedd, derbyniodd y Cyngor arian gan Lywodraeth Cymru trwy gronfa galedi a oedd wedi helpu'r awdurdod i gwrdd â'r costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd, a brofwyd o ganlyniad i'r pandemig. Ni fyddai'r grant hwn ar gael mwyach yn 2022/23, felly byddai angen i'r gyllideb a osodwyd ystyried unrhyw wariant ychwanegol sydd ganddynt efallai o safbwynt y pandemig.

Daeth y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151) i'r casgliad y cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Cabinet ar 18fed Ionawr, a'i fod bellach wedi bod i bob un o'r pwyllgorau craffu yn ystod mis Ionawr. Byddai'r cynigion terfynol o ran y gyllideb yn mynd i'r Cabinet ar 22ain Chwefror, ac yna i'r Cyngor am benderfyniad terfynol ar 23ain Chwefror.

Diolchodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog Adran 151) i'r Cynghorau Tref a Chymuned am anfon y praeseptau a gytunwyd ganddynt ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, fel y gofynnwyd iddynt wneud. Byddai'r rhain yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad terfynol i'r Cyngor ddiwedd Chwefror.

Cyfeiriodd aelod at atodiad B i'r adroddiad, COM2, a oedd yn ymwneud â therfynu'r cytundeb twristiaeth ag AMA Associates a oedd yn hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr gydag amrywiaeth o gyhoeddwyr. Dywedodd yr ymddengys y byddai'r sylw i Ben-y-bont ar Ogwr yn y wasg yn lleihau, gyda'r posibilrwydd o oblygiadau o ran niferoedd yr ymwelwyr a'r economi leol. Gofynnodd p'un ai hwn oedd yr unig fodd o hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal, a pha effaith a gaiff hyn ar adeg pan roedd gwyliau gartref wedi gweld cynnydd o 40%. Atebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid (y Swyddog 151) bod y Cyngor yn defnyddio sawl modd o hyrwyddo twristiaeth, ac mai dim ond un agwedd oedd hon. Roedd gwaith yn parhau i sicrhau y caiff Pen-y-bont ar Ogwr ei hyrwyddo cymaint â phosibl, yn fewnol trwy'r wefan, ac yn allanol. Roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol, ac roedd mwy o ymwelwyr yn dod i Ben-y-bont ar Ogwr erbyn hyn.

Roedd aelod yn pryderu mai dim ond ychydig iawn o ddeunydd hyrwyddo oedd ar gael o gwmpas De Cymru, gan gynnwys yn y gorsafoedd gwasanaethau ar y M4.

Cadarnhaodd yr Arweinydd bod hwn yn un maes gwaith yr ymgymerwyd ag ef i hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan i dwristiaid, a byddent yn parhau i ddefnyddio'r rhai eraill. Roedd nifer y twristiaid a oedd yn ymweld â Phen-y-bont ar Ogwr wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed dros y 12 mis diwethaf, ac roedd y cyfraniad at economi Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed hefyd.

<u>PENDERFYNWYD</u> Derbyniodd ac ystyriodd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022, a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) drafft 2022-23 tan 2025-26 (Atodiad 1).

225. DIWEDDARIAD TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Cyflwynodd y swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) adroddiad a oedd yn darparu amlinelliad i'r Fforwm o'r newidiadau i bolisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CAT), ynghyd â'r cymorth a'r cyfleoedd a oedd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorau Tref a Chymuned (CTaCh) weithio gyda'r Cyngor a grwpiau cymunedol i gyflawni'r trefniadau rheoli gorau ar gyfer asedau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus.

Eglurodd y swyddog CAT y cymeradwywyd y Polisi CAT, sydd wedi'i ddiweddaru, gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 ac roedd yn ystyried argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen CAT. Y prif newidiadau i'r polisi oedd y rheiny o safbwynt blaenoriaethu asedau: blaenoriaeth 1, pafiliynau chwaraeon, caeau chwarae a chanolfannau cymuned; blaenoriaeth 2, meysydd chwarae, meysydd parcio am ddim a rhandiroedd; ac yna blaenoriaeth 3, a oedd yn cynnwys popeth nad oedd wedi'i gynnwys o dan flaenoriaeth 1 a blaenoriaeth 2. Eglurodd bod y ddogfen yn cyflwyno system llwybr carlam, gan mai un o'r beirniadaethau mwyaf a dderbyniwyd ganddynt oedd ynghylch yr amser a gymerwyd i gwblhau CATau. Yn flaenorol, roedd angen cynlluniau busnes manwl, ond bellach nid oeddynt ond yn gofyn am gyflwyno amcanestyniadau incwm a gwariant am gyfnod o o leiaf 5 mlynedd ar gyfer y mwyafrif o CATau (ond y byddid yn dal i ofyn am gynlluniau busnes manwl ar gyfer prosiectau mwy cymhleth, e.e. adeiladau newydd).

Roedd y swyddog CAT yn amlinellu'r sefyllfa o ran cyllid ac adnoddau ar gyfer CATau, ac ychwanegodd, ym mis Hydref 2020, cymeradwywyd Achos Busnes am gymorth o dan Gronfa Rheoli Newid y Cyngor o £266,461 gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC). Roedd hyn yn cynnwys creu tair swydd newydd am gyfnod penodol i fwrw ymlaen â sawl CAT, ac i gyflawni'r arbedion ariannol o dan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Eglurodd bod paragraff 4.12 o'r adroddiad yn rhoi amlinelliad cryno o'r cynnydd a wnaed, yn enwedig yn ystod dwy flynedd ddiwethaf y pandemig COVID, ac roedd Atodiad B hefyd yn darparu gwybodaeth fanwl am y trosglwyddiadau oedd ar waith. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion wyth trosglwyddiad a oedd wedi'u cwblhau hyd yma, ynghyd ag un arall ers cyhoeddi'r adroddiad.

Eglurodd y swyddog CAT mai un o agweddau mwyaf dymunol y Trosglwyddiadau o Asedau Cymunedol yn ystod y pandemig oedd bod 10 allan o 12 o glybiau bowls wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith o reoli 11 o lawntiau bowls eu hunain, o 1 Tachwedd 2020, tra bo prydlesi hirdymor yn cael eu cwblhau.

Amlinellodd y swyddog CAT y cynnydd o ran adolygiad strategol y 3 parc mawr. Cwblhawyd y cam cyntaf o'r adolygiad ym mis Mai 2021. Dylid datblygu'r cylch gorchwyl ar Gam Dau o'r Adolygiad mewn ymgynghoriad â Just Solutions er mwyn ystyried yr egwyddorion a gytunwyd gan y Cabinet / CMB, ynghyd â galluogi bwrw ymlaen â fframweithiau priodol ar gyfer strategaethau unigol ar gyfer Caeau Newbridge a Pharc Lles Maesteg.

Eglurodd y swyddog CAT bod adnoddau staff CAT wedi cynyddu yn yr ychydig fisoedd diwethaf ac y cafwyd cynnydd cyfatebol o ran y cynnydd a wnaed yn y cyfnod byr hwnnw. Yn anffodus, roedd un aelod staff wedi ymddiswyddo ar ddiwedd mis Rhagfyr ac roeddynt yn y broses o geisio recriwtio rhywun yn ei le. I gloi, fe gawsant brofiadau da iawn yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned, ac roeddynt yn edrych ymlaen at gael gwneud mwy o waith mewn partneriaeth wrth fynd ymlaen.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn wirioneddol falch cael gweld y cynnydd a wnaed, a diolchodd i'r tîm bach a oedd yn gweithio ar hyn, am yr hyn a gyflawnwyd trwy weithio mor agos â chlybiau a'r Cynghorau Cymuned.

Dywedodd aelod fod Cyngor Tref wedi gofyn am argostau amryw agweddau mewn perthynas â'r Parc Lles, ond na dderbyniwyd unrhyw beth. Roedd cwmni'n edrych ar ffordd ymlaen, ond nid oeddynt yn gallu bwrw ymlaen neb yr argostau. Atebodd y swyddog CAT y byddai gweithio gyda'r Cyngor Tref yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, byddai'n anodd darparu argostau, ac fel ffordd ymlaen, roeddynt yn edrych ar y gost o gynnal pob agwedd arbennig. Roedd ymgynghorwyr eisoes yn cael trafodaethau â Tennis Cymru ynghylch ail-wynebu'r cyrtiau tennis. Roeddynt yn bwriadu darparu gwybodaeth ystyrlon wrth fynd ymlaen.

Dywedodd aelod bod gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr 5 trefniant prydlesu ar gyfer rhandiroedd, a gofynnodd p'un ai'r bwriad oedd trosglwyddo hawliau i'r Cyngor Tref, ar gyfer y rheiny nad oeddynt yn destun cytundeb prydlesu. Atebodd y swyddog CAT nad oeddynt yn bwriadu newid y rhai presennol.

Daeth yr arweinydd i'r casgliad y cydnabuwyd bod y tîm yn gweithio'n eithriadol o galed, a gofynnodd am gael cyflwyno adroddiad ychwanegol i'r Fforwm mewn 6 i 12 mis, gan fod hwn yn destun sydd o ddiddordeb arbennig i Gynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD Roedd aelodau'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r canlynol o safbwynt y Cyngor:

- Polisi CAT diwygiedig sydd wedi'i ddylunio i symleiddio'r broses a lleihau oedi.
- Cyllid cysylltiedig o dan y Gronfa CAT, a neilltuwyd i annog a chefnogi'r trosglwyddiad o asedau Blaenoriaeth 1.
- A chydnabuwyd y gallai modelau cyflenwi sy'n eiddo i'r gymuned, ac yn cael eu rheoli ganddynt, adfywio asedau cymunedol, a gellid eu datganoli i'r lefel leol yr oeddynt yn gweithredu arni. Roedd llwyddiant CAT yn dibynnu ar gyfranogiad rhagweithiol rhai oedd yn barod i gymryd rhan - Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol - ynghyd â'u gallu a'u capasiti i reoli'r ased.
- Roedd ymroddiad a pharodrwydd i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol er mwyn bwrw ymlaen â CATau.

226. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10